

Beth amdani? - Cystadlaethau i Ddysgwyr Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cyffiniau, 2–10 Awst 2013

Yn 2013 mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Sir Ddinbych. Mae'r Eisteddfod yn wyl arbennig ac yn gyfle perffaith i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg. Mae llawer o gystadlaethau yn yr Eisteddfod, yn cynnwys cystadlaethau sy'n arbennig i ddysgwyr. Mae modd cystadlu yn y cystadlaethau cyfansoddi hyd yn oed os na fyddwch chi yno. Os ydych chi'n mynd i'r Eisteddfod, cofiwch fynd am dro i Maes D, pabell y dysgwyr ar y Maes. Gyda phob math o weithgareddau a gwybodaeth, mae'n lle perffaith i ymarfer eich Cymraeg dros banded. Bydd croeso cynnes i chi yno!

Dyddiadau cau

Dysgwr y Flwyddyn: 1 Mawrth 2013

Cyfansoddi: 1 Ebrill 2013

Llwyfan: 1 Mai 2013

Diffinio Lefelau Dysgwyr

Mae'r cystadlaethau ar gyfer dysgwyr Cymraeg dros 16 mlwydd oed.

Mynediad: wedi derbyn hyd at 120 o oriau cyswllt

Sylfaen: wedi derbyn hyd at 240 o oriau cyswllt

Canolradd: wedi derbyn hyd at 360 o oriau cyswllt

Agored: Cystadlaethau sy'n agored i unrhyw un sydd wedi dysgu'r iaith Gymraeg fel oedolyn ac i'r rhai sydd yn, neu wedi, astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn yr ysgol uwchradd.

Sut i gystadlu

Cystadlaethau llwyfan

- Ffurflen cystadlaethau llwyfan
- Siec am y swm cywir i 'Eisteddfod Genedlaethol Cymru'
- Amlen A5 gyda'ch cyfeiriad a stamp arno er mwyn i chi dderbyn manylion y cystadlu. Byddwch yn derbyn y manylion ym mis Gorffennaf.
- Ar gyfer cystadlaethau 112, 113 a 115 anfonwch gopi o'r gân neu'r gerdd i Swyddfa'r Eisteddfod yn yr Wyddgrug cyn 5 Gorffennaf.

Cystadlaethau cyfansoddi

- Ffurflen cystadlaethau cyfansoddi
- Siec am y swm cywir i 'Eisteddfod Genedlaethol Cymru'
- Amlen wedi'i chau gyda darn o bapur ynddi sy'n cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad. Peidiwch â rhoi unrhyw beth arall yn yr amlen hon heblaw'r darn yma o bapur. Ar flaen yr amlen, rhwch eich ffugenw a theitl a rhif y gystadleuaeth. Dyma'r amlen a fydd yn cael ei hagor os ydych yn ennill y gystadleuaeth.
- Cofiwch gynnwys eich gwaith!

Am ffurflenni cystadlaethau neu am ragor o wybodaeth cysylltwch â Menter Iaith Sir Ddinbych ar 01745812822 neu e-bostiwch

menter@menterdinbych.org